

Y CYFANSODDIAD - ADRAN 1 CYFLWYNIAD

1.1 Diben a Chynnwys y Cyfansoddiad

- 1.1.1 Mae'r Cyfansoddiad yn disgrifio'r amryw gyrrff sy'n rhan o'r Cyngor, eu swyddogaethau, eu Haelodaeth a'u rheolau gweithdrefnol.
- 1.1.2 Yn Adran 3 (Cael Gwybodaeth a Chymryd Rhan), rydym wedi darparu gwybodaeth ar gyfer aelodau'r cyhoedd a chynghorwyr ynglŷn â sut y gallwch gael gwybodaeth am y Cyngor, a sut y gallwch gymryd rhan. Gobeithiwn y bydd hyn yn helpu pobl sydd â diddordeb yng ngwaith y Cyngor, neu mewn mater penodol y mae'n ymdrin ag ef, i ddeall ble y gallant gael mwy o wybodaeth, a sut y gallant gyfrannu at weithgareddau'r Cyngor.
- 1.1.3 Gallwch gael gwell dealltwriaeth o'r hyn y mae pob un o gyrrff y Cyngor yn ei wneud yn Adrannau 4 i 10 y Cyfansoddiad hwn, gan gynnwys y Cyngor Llawn, y Bwrdd Gweithredol, Pwyllgorau Craffu, y Pwyllgor Safonau, y Pwyllgorau Rheoleiddio a Phwyllgorau eraill. Mae Adran 11 yn darparu gwybodaeth am strwythurau rheoli a strwythurau Swyddogion y Cyngor. Mae gan rai Swyddogion ddyletswydd benodol i sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu o fewn y gyfraith ac yn defnyddio adnoddau'n ddoeth. Mae Adran 13, sef cyfrifoldeb am swyddogaethau, yn amlinellu pa rai o gyrrff y Cyngor, a pha Swyddogion, sydd â'r awdurdod i wneud pa benderfyniadau.
- 1.1.4 Mae'r rheolau gweithdrefnol sy'n berthnasol i wahanol gyrrff y Cyngor wedi'u cynnwys yn yr adrannau sy'n ymwneud â'r cyrrff hynny, e.e. y Cyngor Llawn (Adran 4), y Bwrdd Gweithredol (Adran 5) a Throsolwg a Chraffu (Adran 7). Gallai'r rhain fod yn ddefnyddiol i chi os hoffech fynychu cyfarfod, yn enwedig os byddwch yn dymuno gofyn cwestiynau, a chael trafod mater, neu leisio'ch barn.
- 1.1.5 Mae Adrannau 18 i 20 yn cynnwys y Codau Ymddygiad a'r Protocolau y mae Swyddogion ac Aelodau wedi cytuno i gydymffurfio â hwy. Mae'r rhain yn pennu safonau ymddygiad.
- 1.1.6 Mae'r tudalennau Cynnwys ar ddechrau'r Cyfansoddiad hwn yn rhoi arweiniad ar yr hyn sydd yn y Cyfansoddiad a ble y gallwch ddod o hyd iddo.

1.2 Sut mae'r Cyngor yn Gweithredu

- 1.2.1 Mae'r Cyngor yn cynnwys 56 o Gynghorwyr a etholir bob pedair blynedd (neu fel arall yn ôl y ddeddfwriaeth). Mae pob Cynghorydd yn atebol yn ddemocrataidd i drigolion eu hadran etholiadol yn ogystal â phawb sy'n byw ym Mwrdeistref Sir Wrecsam. Prif ddyletswydd Cynghorwyr yw gwasanaethu'r gymuned gyfan, ond mae ganddynt ddyletswydd arbennig i'w hetholwyr, gan gynnwys y rhai hynny na phleidleisiodd drostynt.
- 1.2.2 Mae pob Cynghorydd wedi cytuno i ddilyn Cod Ymddygiad, er mwyn sicrhau safonau uchel yn y ffordd y maent yn ymgymryd â'u dyletswyddau. Y Pwyllgor Safonau sy'n gyfrifol am hyfforddi a chynghori ar y Cod Ymddygiad.
- 1.2.3 Mae'r holl Gynghorwyr yn cyfarfod â'i gilydd yn rheolaidd fel y Cyngor. Mae cyfarfodydd y Cyngor ar agor i'r cyhoedd fel arfer. Yma, mae Cynghorwyr yn penderfynu ar Fframwaith Polisi cyffredinol y Cyngor ac yn gosod y gyllideb

bob blwyddyn. Mae'r Cyngor yn penodi Arweinydd y Cyngor ym mhob cyfarfod blynyddol. Yna mae'r Cyngor yn penderfynu ar faint ac Aelodaeth y Bwrdd Gweithredol. Penodir y Bwrdd Gweithredol i ymgymryd â holl swyddogaethau'r Cyngor nad ydynt yn gyfrifoldeb unrhyw ran arall o'r Cyngor, boed hynny yn ôl y Gyfraith neu o dan y Cyfansoddiad hwn, ynghyd â gwneud penderfyniadau o fewn y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi a osodwyd gan y Cyngor.

Os oes angen unrhyw gymorth pellach arnoch, mae croeso i chi gysylltu â ni yn y cyfeiriad isod.

Y Swyddog Monitro, Neuadd y Dref, Wrecsam LL11 1AY

Er bod y Cyfansoddiad yn hir iawn, gobeithiwn y bydd yn rhwydd i chi ei ddefnyddio. Rydym wedi treulio llawer o amser yn ceisio gwneud yr hyn sy'n ddogfen gyfreithiol hir a chymhleth mor rhwydd i'w dilyn â phosibl.